UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru 2000-2023 – Themâu Trawsbynciol



# Cyflwyniad

Mae'r Themâu Trawsbynciol wedi bod yn rhan o'r rhaglenni a ariennir gan Ewrop yng Nghymru ers 2000. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd (sydd, yng Nghymru, yn cynnwys cefnogaeth i'r Gymraeg) a Datblygu Cynaliadwy yn orfodol. Mae'r drydedd Thema Drawsbynciol (ar gyfer rhaglenni 2014-2020) Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yn benodol i Gymru.

Nod y Themâu Trawsbynciol yw gwella ansawdd a gwaddol y prosiectau a gefnogir drwy Gronfeydd Strwythurol ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni yn gyffredinol. Gan symud y gweithgarwch a gefnogir o gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, i gydnabod arferion da a'r manteision y gall gweithlu mwy amrywiol ac amgylchedd iach eu cael ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan ddosbarthu manteision rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol mewn ffordd fwy cyfartal a chynaliadwy.

Nod y thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd oedd lleihau anghyfiawnder a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn enillion i fenywod a dynion ac eraill sydd â nodweddion gwarchodedig.

Clawr: STEM Gogledd

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48919, ISBN digidol 978-1-83577-240-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Yn rhaglen 2007-2013, bu prosiect peilot Prifysgol Morgannwg **Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE)** yn gweithio gyda chyflogwyr, gweithwyr a menywod hunangyflogedig mewn dull arloesol a blaengar, i fynd i'r afael â'r llu o achosion a oedd yn creu bylchau cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru.

Roedd tair elfen i'r prosiect: dadansoddiad o gyflogau ac ymgyrch yn y cyfryngau 'Let's Talk About Pay' dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, Gwahanu Galwedigaethol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fenywod ym maes Adeiladu a TG dan arweiniad Weithdy Menywod BAWSO, ac entrepreneuriaeth menywod dan arweiniad Prifysgol De Cymru.

Ar ôl cael dadansoddiad gan y prosiect, arweiniodd hyn at sefydlu'r Rhwydwaith Cyflogaeth a Chyflog Dynion a Menywod (GEPN) a llunio Baromedr Cyflog Cyfartal. Dyma adnodd chwilio ar-lein sy'n dangos y swyddi y mae dynion a menywod yn eu gwneud yng Nghymru, eu patrymau gwaith, cyfartaledd cyflogau, a bylchau cyflog.




*Cyfranogwr Menywod sy'n Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE)*

## 3 Themâu Trawsbynciol

Ers 2007, mae **Cenedl Hyblyg** a'i brosiect olynol **Cenedl Hyblyg 2**, dan arweiniad Chwarae Teg, wedi hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chefnogi datblygiad gyrfaoedd ar gyfer menywod drwy roi cefnogaeth benodol i weithwyr yn ogystal â gweithio gyda chyflogwyr ar welliannau mewn Strategaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Cyflwynodd y prosiect ddwy elfen ledled Cymru, gan gefnogi bron i 7,000 o fenywod i ddilyn cymwysterau arwain a chael eu mentora i wella eu safle yn y gweithlu. Ymgysylltwyd â dros 1,260 o gyflogwyr gan eu cefnogi i fynd i'r afael ag anfanteision o ran rhywedd yn y gweithlu a hyrwyddo arferion gweithio modern ac amrywiaeth.




*Cyfranogwyr prosiect Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg*

Dan arweiniad Threshold DAS Limited, roedd **LIMITLESS** yn cefnogi menywod 18 oed a hŷn mewn cyflogaeth ledled Sir Gaerfyrddin, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Benfro. Roedd y prosiect yn cynnig tair rhaglen gymorth i'r rheini a oedd yn profi cam-drin domestig, neu a oedd wedi ei brofi.

Roedd y Rhaglen Canolfan Cymorth Integredig Lles (WISH) yn cynnig cymorth wedi'i deilwra'n arbennig i fagu hyder, hunan-barch ac i fynd i'r afael ag anghenion niferus ac amrywiol menywod. Roedd hefyd yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth i fusnesau a sefydliadau yn ymwneud â rhywedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cafodd Rhaglen WEB (Menywod yn Archwilio Busnes) ei llunio'n benodol gan 'Threshold DAS' ar gyfer menywod i ysbrydoli menywod a oedd am sefydlu eu busnes eu hunain ond a oedd yn wynebu rhwystrau oherwydd eu rhyw.

Roedd Cymhwyster Cymru mewn Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (W-DASVQ) yn gymhwyster wedi'i anelu at oroeswyr, cyn-ddefnyddwyr gwasanaethau ac eraill a oedd â diddordeb mewn gwaith cefnogi fel gyrfa. Roedd hyn yn ategu cynlluniau Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr.

Mae cyllid yr UE wedi bod yn hanfodol hefyd i gefnogi a hwyluso amrywiaeth o fentrau i sicrhau newid sylweddol o ran goresgyn y bwlch rhwng y rhywiau mewn pynciau sy'n ymwneud â Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Mae prosiectau STEM fel **STEM Gogledd, STEM Cymru 2** a **Technocamps 2** wedi rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithdai i adeiladu ar eu gwybodaeth bresennol am TG a chyfrifiadura, ac mae prosiect **Trio Sci Cymru** wedi annog pobl ifanc, yn enwedig merched, i astudio pynciau STEM yn yr ysgol ac ystyried gyrfa yn y meysydd hynny.



*Prosiect STEM Cymru 2 Cynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW)*



*Prosiectau STEM*

Mae **STEM Cymru 2** dan arweiniad Cynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW), wedi cefnogi dros 15,609 o bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed i gyfranogi mwy mewn pynciau STEM, gyda 54% ohonynt yn ferched. Gan weithio mewn timau prosiect, roedd pobl ifanc yn mynd i'r afael â phroblemau peirianneg ac yn datblygu'r sgiliau allweddol y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt. Yn y chweched dosbarth, gweithiodd timau gyda mentoriaid diwydiannol i ddatblygu atebion ymarferol i heriau a wynebir gan gwmnïau cyswllt, gyda rhai atebion yn cael eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith gan y cwmnïau hynny.





*Cyfranogwyr prosiect STEM Cymru 2*

Mae llawer o brosiectau eraill a ariennir gan yr UE wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a cholegau, ar yr agenda STEM gan gynnwys y **Ganolfan Deallusrwydd Artiffisial, Roboteg a Systemau Peiriant-Dynol (IROHMS)**, canolfan dechnoleg amlddisgyblaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r prosiect yn targedu cyfleoedd newydd gan Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a Roboteg a Systemau Peiriant-Dynol (HMS). Mae IROHMS wedi datblygu ymrwymiad cadarn Prifysgol Caerdydd i gefnogi cyfranogiad menywod mewn STEM, ac mae aelodau tîm wedi gweithio hefyd mewn partneriaeth â chynlluniau eraill Prifysgol Caerdydd a phrosiectau a ariennir gan yr UE, fel **FLEXIS**, i gydlynu a darparu gweithgareddau, cefnogi ehangu mynediad a gwella gweithgareddau STEM mewn ysgolion.



*Rhith Lab IROHMS, Prifysgol Caerdydd*

Gan ddeall y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu, a'r amheuon sydd gan rai cymunedau ynghylch darpariaeth prif ffrwd, roedd y prosiect **Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth (ACE)** a ddarparwyd gan CGL Ltd, yn cefnogi unigolion du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a mudwyr i oresgyn y rhwystrau cymhleth sy'n aml yn eu hwynebu yn y farchnad gyflogaeth yng Nghymru. Gan adeiladu ar lwyddiant y prosiect **Cynyddu Cyflogaeth i Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd** o'r rhaglen 2007-2013, roedd cronfa o wirfoddolwyr yn cynnig mentora un-i-un, helpu gyda meithrin hyder, sgiliau a gwybodaeth, cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith. Roedd y prosiect hefyd yn cynnig pecyn e-ddysgu 'Saesneg Cyflym' i helpu'r cyfranogwyr hynny sydd â gallu isel yn yr iaith Saesneg.



*Cyfranogwr prosiect Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth (ACE)*



*Cyfranogwr prosiect Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth (ACE)*

Darparodd **JobSense** wasanaeth cyflogadwyedd arbenigol ar gyfer Cymru gyfan, gan helpu pobl 25 oed a throsodd sy'n ddi-waith dros dymor hir/sy'n anweithgar yn economaidd ac sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw neu eu golwg, i ddod o hyd i waith. Dan arweiniad Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar mewn partneriaeth ag Asiantaeth Elite Supported Employment a'r Ganolfan Arwyddo Golwg Sain, rhoddodd cynghorwyr cyflogaeth arbenigol gefnogaeth i gyfranogwyr oresgyn heriau, gwella eu hyder a'u sgiliau galwedigaethol, a chefnogi unigolion tra oedden nhw mewn cyflogaeth. Gan ymgysylltu â busnesau i ganfod swyddi gwag priodol, llwyddodd y prosiect i godi ymwybyddiaeth o'r gwerth a'r manteision y gall cyflogi pobl sydd â cholled synhwyraidd eu cynnig.



*Prosiect Jobsense*



*Prosiect Jobsense*

Ar draws gogledd Cymru, roedd **ADTRAC**, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, yn darparu cymorth lles a chyflogadwyedd wedi'i bersonoli i bron 1,200 o bobl ifanc, llawer ohonynt ag anableddau cymhleth. Cynigiodd timau ADTRAC wasanaeth mentora pwrpasol i helpu pobl ifanc i ddatblygu cynlluniau gweithredu personol i wella eu lles meddyliol a'u cyflogadwyedd, ennill cymwysterau neu fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.



*ADTRAC yn cefnogi pobl ifanc ledled gogledd Cymru*

Roedd **GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith** yn gweithredu ledled Cymru, dan arweiniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ac yn cefnogi dros 1800 o fyfyrwyr mewn addysg uwch a oedd mewn perygl o fod yn NEET (Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant), gan ddod o hyd i gyflogwyr addas a chyfleoedd profiad gwaith iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u hyder, a gwella eu cyflogadwyedd. Llwyddodd y prosiect i ymgysylltu a chefnogi myfyrwyr a oedd yn wynebu rhwystrau penodol, gyda 26% o gyfranogwyr o gefndir du, Asiaidd neu leiafrif ethnig a 70% yn nodi eu bod yn anabl neu fod ganddynt Gyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Waith (WLHC) gan gynnwys Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth a chyflwr iechyd meddwl.



*Cyfranogwr GO Wales:*
*Prosiect cyflawni drwy Brofiad Gwaith*



*Cyfranogwr GO Wales:*
*Prosiect cyflawni drwy Brofiad Gwaith*

Roedd y **Gwasanaeth Di-waith–Cymru Iach ar Waith (16-24 oed)**, a reolir gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda phobl ifanc nad oeddent mewn addysg na hyfforddiant a bod camddefnyddio sylweddau a/neu broblemau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Roedd y prosiect yn eu cefnogi i fynd yn ôl i fyd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, i helpu i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Roedd llawer yn wynebu rhwystrau ychwanegol, a oedd yn cynnwys bod yn rhan o'r system gyfiawnder, cyrhaeddiad addysgol isel mewn sawl achos, ansicrwydd o ran tai, diffyg gofal plant a chludiant, dim mynediad at gymorth ariannol, diffyg dealltwriaeth o ddewisiadau a chyfleoedd sydd ar gael iddynt ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Roedd y **Cynllun Rhanbarthol Pontio i Gyflogaeth AAA**, prosiect Cyfleoedd Go Iawn, yn mynd i'r afael â'r diffyg cymorth cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Roedd y prosiect ar waith mewn naw ardal awdurdod lleol ledled de Cymru mewn partneriaeth ag Asiantaeth ELITE Supported Employment; Mencap Cymru; a Remploy gyda'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. Roedd hyfforddiant wedi'i bersonoli yn cefnogi dros 1,700 o gyfranogwyr gyda swyddi dros yr haf neu swyddi rhan-amser tra roedden nhw'n yr ysgol, profiadau yn y gymuned, hyfforddiant swyddi, a sgiliau byw'n annibynnol a sgiliau cymdeithasol. Sefydlwyd mentrau cymdeithasol cynaliadwy hefyd, gyda gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl yn eu staffio, gan ddarparu cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc.

Roedd pob prosiect ar draws rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn gorfod cefnogi siaradwyr Cymraeg, naill ai drwy ddarparu gwasanaeth dwyieithog, neu fel gyda rhai prosiectau, darparu gweithgarwch sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn benodol fel **Sgiliau Gwaith i Oedolion 2**, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a'u dyfarniad lefel mynediad 'Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle'.



*Sgiliau Gwaith i Oedolion – Theresa Ball*




*Cyfranogwyr Sgiliau Gwaith i Oedolion 2*

Roedd **Trac 11-24** dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych, yn darparu cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fel rhan o'r broses gaffael, cafodd digwyddiad penodol cwrdd â'r prynwr ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Llwyddodd **Cynhyrchu Cyfryngau Uwch**, dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, i ddarparu llawer o'i fodiwlau yn y Gymraeg. Dywedodd un cyfranogwr 'fel siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, roedd yn wych gallu astudio'r rhan fwyaf o'r modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg'.



*Prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch*




*Prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch*

Rhoddodd **Cymorth yn y Gwaith Cymru Iach ar Waith**, dan arweiniad Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gyfranogwr Cymraeg ei iaith gyda chydlynydd achosion Cymraeg ei iaith i'w cynorthwyo drwy eu sesiynau ffisiotherapi.

Roedd **Academi Busnes Gogledd Cymru**, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, yn cynnig cyfle i'w siaradwyr Cymraeg gwblhau eu haseiniadau a derbyn deunyddiau dysgu yn Gymraeg.

Mae Datblygu Cynaliadwy yn un o egwyddorion craidd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, ac fel thema drawsbynciol, mae'n elfen hanfodol i sicrhau bod rhaglenni a gweithrediadau'n cwrdd ag amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae amgylchedd deniadol yn chwarae rhan allweddol o ran denu a chadw pobl i fyw a gweithio yng Nghymru, gan ddarparu ansawdd bywyd i drigolion Cymru a sicrhau bod ein hamgylchedd yn cael ei warchod am genedlaethau i ddod. Mae llawer o'r prosiectau wedi darparu cyrsiau codi ymwybyddiaeth, addysg neu hyfforddiant sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy yn uniongyrchol.

Mae **Addysg, Hyfforddiant, a Dysgu Deunyddiau a Gweithgynhyrchu (METaL2)**, yn brosiect sy'n cael ei arwain gan y galw yn y diwydiant, gyda Phrifysgol Abertawe wrth y llyw, a llwyddodd y prosiect i uwchsgilio dros 1,179 o bobl, o dros 93 o gwmnïau gwahanol, ym maes Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch. Cafodd datblygu cynaliadwy ei ymgorffori ym modiwlau hyfforddiant METaL2, yn benodol ynghylch deddfwriaeth amgylcheddol a'r dylanwad y mae diwydiant yn ei gael ar yr amgylchedd. Roedd cwrs hyfforddi ar yr economi gylchol yn edrych ar rai o'r heriau pwysicaf a byd-eang sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, a sut mae'r economi gylchol yn cynnig llwybr newydd i oresgyn y problemau hyn.




*Seminar METaL*

Roedd **Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 (KESS 2)**, dan arweiniad Prifysgol Bangor yn cynnig nifer o weithgareddau ynghylch hyfforddiant ar ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys gweithdai 'Cyflwyniad i Gynaliadwyedd' a chyfres fisol o weminarau, lle gofynnwyd i fyfyrwyr ddangos sut byddai eu hymchwil yn cyd-fynd â nodau cynaliadwyedd. Mae dathliad Gwobrwyo Blynyddol, lle bydd myfyrwyr yn rhoi cyflwyniad ar eu gweithgareddau ymchwil, wedi cyflwyno gwobr benodol ar gyfer 'Cynaliadwyedd' hefyd.

Mae Datblygu Cynaliadwy wedi chwarae rhan allweddol hefyd yn y prosiectau cyfalaf sydd wedi'u hariannu, yn enwedig o ran meithrin dulliau arloesi. Ceir rhai enghreifftiau rhagorol sy'n cynnwys toeau gwyrdd, waliau byw, elfennau bioamrywiaeth a mesurau effeithlonrwydd adnoddau.



*Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 (KESS 2) Enillydd Gwobr*




*Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 (KESS 2)*

Mae **Sefydliad Ymchwil ar gyfer Deunyddiau, Prosesu a Thechnolegau Rhifiadol Arloesol (IMPACT)** a **Ffowndri Gyfrifiadol**, cyfleuster ymchwil o safon ryngwladol ar gyfrifiadureg, dan arweiniad Prifysgol Abertawe, wedi'u lleoli ar safle a oedd yn arfer bod yn safle tir llwyd.



*Adeilad IMPACT*



*Adeilad IMPACT*

Roedd y ddau brosiect wedi ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y cam dylunio cyn cynllunio ac yn y cam adeiladu, gan ennill statws 'BREEAM Rhagorol'. Mae'r nodweddion dylunio'n cynnwys golau dydd da, awyru naturiol ac acwsteg, deunyddiau lleol lle bo hynny'n bosibl, ac ailgylchu gwastraff adeiladu ar y safle. Mae paneli ffotofoltäig ar do adeilad y Ffowndri Gyfrifiadol, yn darparu ynni glân ar gyfer yr adeilad, ac mae cwareli gwydr wedi eu trin ar y ffasâd sy'n wynebu'r de ar adeilad IMPACT yn caniatáu gwresogi goddefol ac amddiffyniad rhag golau tanbaid, yn ogystal ag atal colli gwres yn ystod misoedd y gaeaf.

Er mwyn annog bioamrywiaeth, mae gwlyptir yn yr iard ganolog, gan ddefnyddio planhigion, llwyni a choed brodorol, yn rhan o'r dylunio, fel y mae blychau nythu gwenoliaid ac ystlumod ynghyd â wal fyw 'wyrdd' ar ochr ogleddol adeilad IMPACT.

Enillodd AHR, penseiri IMPACT, wobr Ystadau Addysg 2020 am ddylunio adeilad IMPACT. Mae'r wobr, Arloesi wrth Roi Gwerth, yn cydnabod arloesi sydd wedi helpu i gyfrannu at werth wrth ddylunio mannau dysgu.



*Adeilad CUBRIC*



*Tu mewn i CUBRIC*

Roedd prosiect **CUBRIC II**, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, wedi integreiddio elfennau o'r themâu trawsbynciol yn systematig i'w ddyluniad. Llwyddodd yr adeilad i ennill statws BREEAM 'rhagorol' gan ymgorffori amrywiaeth o fesurau effeithlonrwydd adnoddau gan gynnwys tri tho gwyrdd, ac mae wedi ennill llu o wobrau. Yn 2016, cafodd Wobr Efydd Cynaliadwyedd Amgylcheddol, ac yn 2017, llwyddodd i ennill gwobr Categori Adeilad Ymchwil Gwyddor Bywyd yng Ngwobrau S-Lab 2017. Enillodd hefyd Wobr Arbennig y Cadeirydd ar gyfer Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a Phrosiect y Flwyddyn a'r teitl Dylunio drwy Arloesi yng Ngwobrau RICS 2017, Cymru. Yn 2018 dyfarnwyd gwobr Arian i'r adeilad am y Cynllun Effaith Gwyrdd.

Mae **Safle Strategol Tŷ Du** yn gydweithrediad rhwng Gwasanaeth Cynllunio ac Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Llywodraeth Cymru i adeiladu 4 adeilad cyflogaeth o ansawdd uchel. Bydd yr adeilad busnes newydd yn cynnwys gofod gweithredol helaeth, lle parcio i geir a beiciau, seddi allanol ac ardaloedd i grwpiau mewn lleoliad wedi'i dirlunio'n ddeniadol, gan gynnwys coed a gwrychoedd newydd. Mae celloedd PV solar a mesurau effeithlonrwydd dŵr wedi cael eu defnyddio. Gan gefnogi seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth, bydd Cynllun Rheoli Tirwedd 25 mlynedd o hyd yn cynnwys gwarchod gwrychoedd ffiniau ochr yn ochr â phlannu coed newydd a phlannu planhigion drwy gydol y flwyddyn er budd rhywogaethau sy'n peillio.




*Safle Strategol Tŷ Du*



*Safle Strategol Tŷ Du*

Ceir rhai enghreifftiau clir o brosiectau a ariennir drwy'r Cronfeydd Strwythurol, lle mae'r ffocws ar yr amgylchedd wedi'i ategu drwy godi ymwybyddiaeth, meithrin sgiliau yn y gymuned, a chynnig cyfleoedd i unigolion a grwpiau a allai fel arall fod wedi cael eu heithrio rhag cymryd rhan.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn allweddol i lwyddiant **Swansea Community Solar Storage** dan arweiniad Gower Power. Gan ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol i feithrin sgiliau a hyder aelodau'r gymuned, mae'r prosiect wedi rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd fwyaf ei hangen i fabwysiadu mesurau arbed ynni yn eu cartrefi i liniaru tlodi tanwydd. Mae hefyd yn gweithio gyda'r gymuned i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion ynni sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.



*Prosiect Swansea Community Solar Storage, Gower Power*

Roedd **Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol (RICE)** dan arweiniad Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, wedi canolbwyntio ar brosesau arloesol i leihau allyriadau CO2 Cymru a lleihau'r defnydd o ynni a deunydd crai gan Ddiwydiant Trwm yng Nghymru. Llwyddodd tîm RICE i ymgorffori canlyniadau cydraddoldeb mewn prosiect sy'n ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd, gan gefnogi mwy o ferched a menywod ifanc i gymryd rhan mewn STEM a chydnabod pwysigrwydd tîm prosiect amrywiol o ran arloesi a syniadau.



*Twnelau polythen Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol (RICE)*




*Prosiect RICE – Gwyddoniaeth Super Abertawe 2020*

Ledled Cymru, fel rhan o'r ymrwymiad i ddwyn budd i gymunedau drwy gyllid Ewropeaidd, mae prosiectau wedi bod yn darparu gweithgareddau sy'n cyfrannu at gydraddoldeb mynediad, yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd naturiol ac yn annog cydlyniant ac ymgysylltiad cymdeithasol. Mae gweithgareddau er budd y gymuned yn cynnwys darparu cyflogaeth leol, hyfforddiant, prentisiaethau a chynlluniau lleoliadau gwaith; cynlluniau gwirfoddoli; gweithio gydag elusennau lleol, gwella'r amgylchedd naturiol ac amgylchedd adeiledig, a noddi cynlluniau a rhoddion.



*Tîm Trafnidiaeth Cymru yn Rhandiroedd Ffynnon Taf*



*Tîm Trafnidiaeth Cymru yn Rhandiroedd Ffynnon Taf*

Mae prosiect **Metro De Cymru** yn cael ei arwain gan Trafnidiaeth Cymru, sydd, ynghyd â'u contractwyr, wedi bod yn cymryd rhan mewn gwaith allgymorth cymunedol ledled Cymru. Mae naw safle'n cael eu gwella i baratoi ar gyfer trydaneiddio ac mae pob un yn elwa o gynlluniau gweithredu cymunedol. Dyma rai enghreifftiau: Cydweithiodd Griffiths Construction a Thrafnidiaeth Cymru ar adnewyddu a gwella hygyrchedd gofod rhandir yn Ffynnon Taf a oedd wedi mynd yn flêr ac wedi gordyfu.

Gyda chefnogaeth Mikerry Rail Limited, aeth Balfour Beatty ati i ddatblygu a gwella ardal yn Ysgol Gyfun Treorci a fydd yn cael ei datblygu ymhellach a'i defnyddio fel gardd goffa.

Yn dilyn effaith ddinistriol Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, daeth timau Trafnidiaeth Cymru at ei gilydd i ddangos eu cefnogaeth i gymunedau yr effeithiwyd yn wael arnynt. Dros bedwar diwrnod, bu aelodau'r tîm yn helpu gyda gwaith glanhau ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, gan lwyddo i dynnu tua 7 tunnell o silt, cerrig a malurion mewn tywydd gwael a helpu i glirio'r Lido. Mae llawer o gydweithwyr a phartneriaid corfforaethol hefyd wedi cefnogi ymdrechion adfer drwy roi a chodi arian i helpu'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt.

Yng ngogledd Cymru, mae lledu ffordd yr **A55**, i'w huwchraddio i safonau ffordd ddeuol modern, wedi dod â manteision ychwanegol i'r cymunedau lleol, gan wella'r cysylltiadau i fusnesau a thrigolion lleol a gwell draenio sy'n lleihau'r risg o lifogydd yn yr ardal.

Gan geisio cadw cymaint o'r cynefin â phosibl, yn enwedig o ran gwrychoedd, mae gwaith tirlunio wedi cael ei wneud gan gynnwys plannu gwrychoedd newydd, croesfannau nentydd newydd o dan yr A55 a chreu twneli bywyd gwyllt. Llwyddwyd i achub 42 o frithyll a 10 llysywen hefyd o gwlfert Afon Wig. Roedd caffael llafur a deunyddiau'n lleol yn helpu i leihau costau ac allyriadau carbon gyda'r contractwr yn siarad â Gyrfa Cymru a'r gadwyn gyflenwi leol cyn ac ar ôl iddynt gael y contract i drafod y sgiliau a'r cyflenwadau angenrheidiol.

Fe wnaeth y prosiect ymgysylltu ag ysgolion lleol, gan gyflwyno gwersi rhithiol i ddisgyblion Blwyddyn 10 yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda a gwersi STEM rhithiol gyda disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Tryfan fel rhan o'u 'Diwrnod Gweithgareddau'. Hefyd, treuliodd nifer o fyfyrwyr hŷn amser ar y Safle a gyda Rheolwyr y Prosiect fel rhan o'u lleoliad profiad gwaith.

Cefnogodd y contractwr Alun Griffiths gyfres o ddigwyddiadau codi arian, ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru, MacMillan; a rhodd fawr i Fanc Bwyd lleol Arfon.